Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhoi **rhan 10** o
Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
ar waith



**Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc**

## Mae gennym ni wasanaethau cymdeithasol da yng Nghymru ond mae Llywodraeth Cymru'n eu gwneud nhw'n well fyth.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn helpu teuluoedd ac unigolion pan mae angen help arnyn nhw.

Maen nhw hefyd yn helpu plant a phobl ifanc:

- pan maen nhw mewn perygl o gael eu niweidio
- pan mae ganddyn nhw broblemau teuluol
- pan mae ganddyn nhw anabledd
- pan maen nhw mewn helynt â'r gyfraith neu'r heddlu
- pan maen nhw'n derbyn gofal
- pan nad yw eu teuluoedd yn gofalu amdanyn nhw fel y dylen nhw wneud
- pan maen nhw'n gadael gofal ac yn cael eu cefnogi i ddod yn oedolion.

## Ffordd newydd o wneud pethau

Yn 2014, fe wnaethom ni ddeddf newydd o'r enw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).**

*(Mae Deddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith.)*

Mae'r Ddeddf newydd yma'n manylu ar bopeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol (cynghorau) eu gwneud i helpu pobl yn eu hardal nhw.

Mae yna 11 rhan i'r Ddeddf, yn rhoi sylw i bopeth y mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu gwneud, ac mae'r llyfryn yma'n edrych ar ran 10.

I ddarllen y Ddeddf newydd gyfan
- cliciwch yma:



## Paratoi

**Bydd pawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol yn newid eu ffordd o weithio a byddan nhw'n defnyddio'r Ddeddf newydd yma o fis Ebrill 2016 ymlaen.**

Felly rydyn ni wrthi'n llunio fframwaith (camau) newydd fel bod pawb yn deall beth y mae'r Ddeddf newydd yn ei olygu a beth y mae angen iddyn nhw ei wneud.

Bydd y fframwaith newydd yn cynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ei hun
- Rheolau (rheoliadau) newydd y mae modd eu gwneud oherwydd y Ddeddf
- Codau Ymarfer (canllawiau) i bawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol eu dilyn.

**Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthych chi am y Cod Ymarfer a rhai o'r rheolau newydd rydyn ni wedi'u datblygu ar gyfer Rhan 10 y Ddeddf.**

**Rydyn ni wedi holi rhai pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol, a rhai plant a phobl ifanc ynglŷn â'r rhain yn barod, ond nawr rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi.**

**Wedyn, byddwn ni'n anfon y codau a'r rheoliadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru iddyn nhw gytuno arnyn nhw mewn pryd i bawb ddechrau gweithio'n unol â nhw o fis Ebrill 2016 ymlaen.**



## Beth y mae Rhan 10 yn rhoi sylw iddo?

Mae Rhan 10 y Ddeddf yn edrych ar faterion gwasanaethau cymdeithasol nad ydyn nhw'n cael sylw yn y 10 rhan arall.

Mae'r rhain yn cynnwys y pethau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud:

- rhoi'r cymorth sydd ei angen ar bobl i allu cael llais, rhoi barn a chwarae rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau nhw
- gwneud yn siŵr bod pawb, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i ddweud eu dweud.

Mae'r rhan yma o'r ddeddf yn ymwneud ag eiriolaeth.

**Gwasanaethau eiriolaeth** - yn rhoi help a chymorth ichi pan mae angen hynny arnoch chi. Gallan nhw hefyd eich rhoi chi mewn cysylltiad â phobl eraill sy'n gallu bod yn eiriolwr ichi.

Un o ddibenion eiriolaeth yw diogelu pobl sydd mewn perygl o niwed a chamdriniaeth

**Eiriolwr** - rhywun sy'n gallu'ch helpu chi i ddweud eich dweud pan rydych chi'n teimlo nad oes unrhyw un yn gwrando ar eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau.

Gall hyn fod yn aelod o'r teulu, yn ffrind neu'n rhywun sy'n annibynnol ac sy'n cael ei ddarparu ichi gan wasanaethau eiriolaeth.

## Eiriolaeth

**Mae'n rhaid i awdurdodau lleol fod â gwasanaethau eiriolaeth ar gael i bobl eu defnyddio.**

Mae'r cod ymarfer yn manylu ar:

- sut mae eiriolaeth yn helpu pobl
- y gwahanol fathau o eiriolaeth
- sut i roi gwybod i bobl am wasanaethau eiriolaeth
- sut i wneud yn siŵr bod pobl yn cael gwybodaeth a chymorth i wneud penderfyniadau ynglŷn ag eiriolaeth
- sut i asesu (gwirio) faint o eiriolaeth a chymorth sydd eu hangen ar rywun
- pan ddylid talu am eiriolaeth a phan ddylai fod yn rhad ac am ddim.

Mae'r cod ymarfer hefyd yn esbonio pan na ddylai rhywun fod yn eiriolwr a phan mae angen eiriolwr annibynnol.



## Diolch yn fawr am ddarllen hwn.

A fyddech chi cystal ag ateb y cwestiynau isod ac anfon eich atebion i:

sswbimplementation@cymru.gsi.gov.uk

neu:

Cangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**erbyn 31 Gorffennaf, 2015**



## Cwestiynau:

Ydych chi'n meddwl bod y Cod Ymarfer a'r rheolau newydd rydyn ni wedi'u datblygu ar gyfer Rhan 10 y Ddeddf yn syniad da?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw:

Ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi gadael rhywbeth pwysig allan wrth wneud y cynlluniau yma?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw: